**Eitem ar yr agenda: 4(ii)**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

Dyma gofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 21ain Mawrth 2005 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug. Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| J B Attridge (dirprwy) | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Swyddog Prosiectau) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd na chafodd unrhyw eitemau eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc i'w hystyried.

## 3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

i. Mynegwyd cydymdeimlad yr Awdurdod â'r Cynghorydd W J Chorlton oedd wedi colli ei dad yn ddiweddar a'r Cynghorydd D Clayton oedd wedi colli ei fam.
ii. Gofynnwyd i'r aelodau nad oedd wedi cyflwyno eu manylion banc/cymdeithas adeiladu i'r Awdurdod er mwyn hwyluso talu eu lwfansau a'u treuliau, wneud hynny i'r Swyddog Cyswllt Aelodau cyn gynted ag y bo modd.
iii. Dyddiadau cyfarfodydd y pwyllgorau yn y dyfodol: byddai Gweithgor y Cynllun Risg yn cyfarfod am 10:30 o'r gloch fore Llun 25ain Ebrill 2005. Yn union wedi cyfarfod y Gweithgor, sef tua hanner dydd, byddai'r Panel Gweithredol yn cynnal ei gyfarfod nesaf. Byddai'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl. Byddai'r cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân yn cael ei gynnal ddydd Llun 20fed Mehefin 2005 ym Modlondeb, Conwy. Byddai Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod yn dechrau am 10:30 y bore, gyda'r cyfarfod busnes arferol yn cael ei gynnal yn union wedyn.

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 20fed Rhagfyr 2004

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Pwyllgor Gwerth Gorau a gynhaliwyd ar 9fed Rhagfyr 2004
iii. Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15fed Rhagfyr 2004
iv. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2005

## 5) Materion yn codi

Roedd y materion canlynol yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Cofnodion yr Awdurdod Tân 20fed Rhagfyr 2004:**
**Tud. 2, Rhybudd o Faterion Brys:** Gofynnodd y Prif Swyddog Tân am gydsyniad yr Aelodau i ddwyn ymlaen ymweliad arfaethedig yr aelodau newydd â Chanolfan Hyfforddi Ryngwladol Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn yn Chorley o haf 2005 i wanwyn 2005. Y rheswm am hyn oedd fod gan yr Awdurdod ddeuddeg o recriwtiaid newydd yn y Ganolfan ar hyn o bryd yn derbyn eu cwrs hyfforddiant cychwynnol. Felly, roedd o'r farn y byddai'n gyfle da i'r aelodau ymweld â'r Ganolfan pan fyddai'r recriwtiaid ar fin cwblhau eu cwrs hyfforddi. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - dwyn ymlaen ymweliad yr aelodau newydd â Chanolfan Hyfforddi Ryngwladol Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn yn Chorley i wanwyn 2005***

**Tud. 5, paragraff 1af – ymweliad y Cadeirydd ag awdurdodau tân ac achub cyffiniol a thros y ffin:** Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod trefniadau bellach mewn llaw i Brif Swyddog Tân newydd Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Amwythig, ynghyd ag uwch reolwyr eraill a chynrychiolwyr o'r awdurdod, i ymweld â Gogledd Cymru cyn bo hir. Roedd hefyd yn fwriad gan y Cadeirydd drefnu ymweliad tebyg i Awdurdod Tân ac Achub Swydd Gaer.

**Tud. 5, 3ydd paragraff – trefniadau tân ac achub Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA):** Dywedodd y Cynghorydd E C George fod WLGA wedi awgrymu'n ddiweddar ei bod yn barod i ystyried, gan fod tân ac achub bellach yn fater datganoledig, sefydlu pwyllgor yn benodol i ymdrin â materion y gwasanaeth tân ac achub, yn debyg i Fforwm Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA). Roedd y Cynghorydd George o'r farn y dylid ymgynghori'n drwyadl gyda'r awdurdodau tân ac achub cyn sefydlu pwyllgor o'r fath. Addawodd y Cadeirydd godi'r mater yn y cyfarfod nesaf o Bwyllgor Cydlynu WLGA ond dywedodd fod yr LGA hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ail-sefydlu ei Bwyllgor Gweithredol Tân, er na fyddai unrhyw sicrwydd y byddai gan awdurdodau tân ac achub Cymru sedd ar unrhyw Bwyllgor Gweithredol Tân newydd gan yr LGA. Roedd y Cynghorydd George o'r farn nad oedd seddi ar bwyllgorau tân yr LGA bellach, yn dilyn datganoli, mor bwysig ag y buont yn y gorffennol. Dylai'r Awdurdod bellach lobïo WLGA i sefydlu ei bwyllgorau ei hun i adlewyrchu'r rhai roedd yr LGA wedi eu sefydlu yn Lloegr. Esboniodd y Prif Swyddog Tân mai'r rheswm pam fod yr LGA yn edrych ar ail-sefydlu ei Bwyllgor Gweithredol Tân ar hyn o bryd oedd oherwydd canfyddiadau adroddiad pwyllgor craffu ar y ffordd roedd yr anghydfod diwydiannol wedi cael ei drin a'r gwersi oedd i'w dysgu ar gyfer y dyfodol. Un peth y beirniadwyd yr LGA yn ei gylch oedd ei benderfyniad

i gael gwared ar ei Bwyllgor Gweithredol Tân. Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân y byddai Grŵp Cyswllt Tân ac Achub yn cael ei sefydlu dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer Cymru. Byddai aelodaeth y Grŵp hwn yn cynnwys Prif Swyddogion Tân a Chadeiryddion yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ynghyd â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, a byddai'n cyfarfod yn rheolaidd, ac yn gorfod cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - anfon llythyr i'r WLGA yn gofyn iddo, yn dilyn datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol, sefydlu ei Fforwm/Pwyllgor Gweithredol Tân ei hun i adlewyrchu'r un sefydlwyd gan yr LGA yn Lloegr***

**Cofnodion y Pwyllgor Safonau, 15fed Rhagfyr 2004**
Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton ei fod, o ddarllen cofnodion y Pwyllgor hwn, o dan yr argraff fod y Pwyllgor yn pryderu nad oedd wedi derbyn unrhyw achosion i ymchwilio iddynt ac y gallai, o'r herwydd, fod yn chwilio am achosion. Rhoddodd y Clerc sicrwydd i'r Cynghorydd Chorlton nad felly yr oedd, a chyfeiriodd ef at y frawddeg olaf ym mharagraff 5 o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, sef eitem fusnes rhif 12 ar agenda'r cyfarfod presennol, lle roedd yn dweud y "gobeithia'r pwyllgor y bydd y sefyllfa dderbyniol yma'n parhau".

Cyfeiriodd y Cynghorydd W J Chorlton at alwad ffôn a gafodd gan y Clerc yn dilyn pwynt a gododd yn y Panel Gweithredol ar 7 Mawrth. Nid oedd ei sylwadau wedi eu bwriadu i fod yn amharchus ond fel hynny y dehonglodd y Prif Swyddog Tân hwy, ac fe ymddiheurodd am hynny. Cafodd y Cynghorydd Chorlton wybod gan y Clerc a'r Cadeirydd na allai godi mater ynghylch busnes cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth 2005 yn y cyfarfod presennol gan nad oedd cofnodion y cyfarfod hwnnw wedi cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo nac er gwybodaeth.

**6) Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) oedd yn rhoi crynodeb i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ar 20fed Rhagfyr 2004. Yna, aeth yn ei flaen i fanylu ar y digwyddiadau a'r gweithgareddau oedd yn yr adroddiad ac ateb cwestiynau'r aelodau am agweddau amrywiol yr wybodaeth. Cafodd yr Awdurdod wybod gan y Cadeirydd fod y cyfarfodydd a fynychwyd ganddo ef a Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân holl awdurdodau tân ac achub Cymru gyda Mrs Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, wedi ei drefnu i drafod, ymhlith materion eraill, bryderon yr awdurdodau ynghylch y fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer Cymru. Cafodd yr aelodau wybod bod cyfarfod diweddarach a gynhaliwyd rhwng Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân gydag Arweinydd a Chyfarwyddwr y WLGA wedi bod yn un diddorol ac adeiladol. O ganlyniad, roedd Arweinydd y WLGA, sef y Cynghorydd Alex Aldridge, wedi ysgrifennu at y Gweinidog gan

godi nifer o bryderon yr awdurdodau tân ac achub gyda hi. Ers hynny, roedd y Fframwaith Cenedlaethol wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan y sesiwn lawn o'r Cynulliad ar 16eg Mawrth 2005.

Cafodd yr aelodau drosolwg cryno o'r Gynhadledd "Performance Management", a gynhaliwyd yn Llundain, ac a fynychwyd gan y Cadeirydd gyda'r Swyddog Prosiectau ar 15fed Chwefror 2005.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd wedi bod yn rhan o seremoni cwblhau hyfforddiant Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc yng Nghaergybi ar 26ain Chwefror a gyda lansiad y gangen newydd yn y Bermo ar 19eg Mawrth. Dymunodd bob llwyddiant i'r ddwy gangen yn y dyfodol.

Cafodd yr aelodau wybod i Gynhadledd Tân yr LGA, gynhaliwyd yn Portsmouth rhwng 15fed a 16eg Chwefror, fod yn ddigwyddiad ardderchog. Cawsant wybod hefyd gan y Cadeirydd fod cyfarfod o'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Brigadau Tân Awdurdodau Lleol, a ohiriwyd ar 23ain Mawrth, wedi cael ei ail-drefnu ar gyfer y 5ed Ebrill 2005.

Hefyd, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Awdurdod fod Atal Tân Cymru wedi penodi Rheolwr Cyfathrebu newydd ar 17eg Mawrth 2005. Byddai'r sawl a benodwyd yn dechrau ar ei swydd cyn bo hir. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad***

## 7) Alldro Amcanol 2004/05

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhestru'r alldro amcanol ar gyfer blwyddyn ariannol 2004/05. Roedd y rhagolygon presennol yn amcangyfrif tua £839,364 o danwariant. Cafodd yr Awdurdod ei atgoffa gan y Trysorydd ei fod eisoes wedi penderfynu yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2004 i ddefnyddio £500,000 o'r tanwariant i ariannu'r cynyddiadau yn y gyllideb ar gyfer 2005/06. Oherwydd problemau cynhyrchu gyda'r gwisgoedd newydd ni fyddai pob eitem wedi cael eu dosbarthu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, ac felly byddai gan yr Awdurdod danwariant ar ei ddarpariaeth ar gyfer gwisgoedd yn 2004/05. Felly, dywedodd y Trysorydd y dylai'r Awdurdod sefydlu Darpariaeth ar gyfer Gwisgoedd o fewn cyllideb 2005/06 a throsglwyddo'r swm o £95,000 o danwariant 2004/05 i'r Ddarpariaeth hon er mwyn ariannu'r costau hyn. Byddai swm y tanwariant amcangyfrifedig ar gyfer 2004/05 wedyn, yn ddibynnol ar beidio â chael unrhyw ddigwyddiadau mawr ar yr ochr weithredol cyn diwedd y flwyddyn ariannol, tua £240,000. Cafodd yr aelodau wybod gan y Trysorydd fod angen iddynt benderfynu ar y dull gorau i ymdrin â'r tanwariant hwn. Ers llunio'r adroddiad, daeth mater posib arall i'r golwg a allai effeithio ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2005/06. Cafodd yr aelodau wybod gan y Trysorydd na fyddent yn gallu rhannu unrhyw wybodaeth fanwl am y mater hwn gyda hwy heb fynd â'r drafodaeth i fusnes Rhan II. Pwysleisiodd y Trysorydd mai posibilrwydd yn unig oedd i'r mater hwn, ar hyn o bryd, gael effaith ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2005/06. Roedd rhagor o ymholiadau'n wrthi'n cael eu gwneud i weld y sefyllfa'n glir. Roedd y

Trysorydd o'r farn y dylai'r Awdurdod ystyried newid geiriad trydydd cymal yr argymhelliad fel y gallai gadw'r tanwariant o 2004/05 at ddiben sefydlu darpariaeth i ariannu'r mater posib hwn, yn ogystal ag ariannu prosiectau a ddeilliai o benderfyniadau ar y Cynllun Risg, a bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin.

Hysbysodd y Cynghorydd W J Chorlton yr Awdurdod Tân fod ei awdurdod cyfansoddol ef ei hun wedi dweud ei fod yn disgwyl iddo, fel un o'i gynrychiolwyr ar yr Awdurdod, ofyn am i'w cyfran hwy o'r arian tanwariant gael ei ad-dalu. Ar y llaw arall, dywedodd y Cynghorydd E C George fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn falch o'r cyfraniad roedd yr Awdurdod Tân wedi ofyn amdano ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac felly roedd o'r farn y dylai'r Awdurdod Tân gadw'r arian a danwariwyd fel darpariaeth, o leiaf tan fis Mehefin pan allai'r sefyllfa fod yn gliriach. Roedd y Cynghorydd E F Evans yn cytuno gyda'r Cynghorydd George na fyddai'r swm i'w dychwelyd i bob awdurdod cyfansoddol yn cael effaith fawr ar gyllidebau'r un o'r awdurdodau. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd W J Chorlton ar sefyllfa gyfreithiol yr Awdurdod Tân ar y mater hwn, dywedodd y Clerc na allai'r Awdurdod ddychwelyd yr arian i un awdurdod cyfansoddol heb ei ddychwelyd i'r lleill. Petai'r Awdurdod yn penderfynu ad-dalu gweddill y tanwariant, byddai'n rhaid iddo ei ad-dalu i bob awdurdod, yn seiliedig ar y fformiwla a fanylwyd arno yn adroddiad y Trysorydd. Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc mai eu dyletswydd cyntaf a phennaf fel aelodau o'r Awdurdod Tân oedd dod i benderfyniadau er lles trigolion Gogledd Cymru o ran busnes yr Awdurdod Tân, er iddynt gael eu henwebu gan eu hawdurdodau cyfansoddol eu hunain i wasanaethu fel eu cynrychiolwyr ar yr Awdurdod Tân. Roedd yn deall bod yn rhaid i'r aelodau wrth gwrs ystyried safbwynt eu hawdurdod eu hunain, ond pwysleisiodd na allent adael i hynny lesteirio eu rhyddid i benderfynu. Ychwanegodd y Trysorydd y gallai'r awdurdodau cyfansoddol ofyn am yr arian oedd yn weddill yn ôl petaent yn dymuno, ond hefyd gallai'r Awdurdod Tân ei gadw am resymau penodol, fel yr argymhellwyd y tro hwn, cyhyd ag ei fod yn adrodd yn ôl yn rheolaidd ar y sefyllfa i'r aelodau. Cadarnhaodd y Clerc a'r Trysorydd ill dau nad oedd gan yr Awdurdod Tân hawl i gadw arian ar ddiwedd blwyddyn ariannol, ond y gallai gadw darpariaethau. Nid oedd Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno)1995 yn dweud dim am y mater, ond roedd yn dweud y gallai'r Awdurdod ad-dalu arian i'r awdurdodau cyfansoddol unrhyw bryd a hefyd, gallai ofyn am ragor o arian petai angen.

Gofynnodd y Cynghorydd M Griffith a allai'r Awdurdod, unwaith y byddai wedi gwneud penderfyniad i sefydlu darpariaeth am reswm penodol, drosglwyddo'r arian oedd ganddo yn y ddarpariaeth honno at ryw brosiect neu gost arall. Dywedodd y Clerc fod hawl gwneud hynny; hefyd pe gwelid yn y dyfodol nad oedd angen y ddarpariaeth, gellid dychwelyd yr arian i'r awdurdodau cyfansoddol.

Roedd y Cynghorydd W J Chorlton o'r farn y dylid, fel mater o egwyddor, ddychwelyd y tanwariant i'r awdurdodau cyfansoddol. Cadarnhaodd y Trysorydd i'r Awdurdod ei fod yn cadw cysylltiad rheolaidd â thrysoryddion holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt

am sefyllfa ariannol yr Awdurdod Tân, ond pwysleisiodd nad oedd y mater posib yn ymwneud â rhaglen gyfalaf yr Awdurdod Tân wedi dod i'r amlwg y tro diwethaf y bu yn siarad â Thrysorydd Cyngor Sir Ynys Môn. Roedd y Cynghorydd E C George o'r farn nad oedd angen i'r Awdurdod Tân ymgynghori â'r awdurdodau cyfansoddol ynghylch y mater hwn. Pan ddarparodd Llywodraeth Prydain arian pontio i'r Awdurdod i'w gynorthwyo gyda'r agenda foderneiddio, nid oedd yr Awdurdod wedi ad-dalu'r awdurdodau cyfansoddol a'u cyfran hwy o'r arian dderbyniwyd, felly dylid defnyddio'r un egwyddor ar gyfer y tanwariant yn y flwyddyn ariannol 2004/05.

Cynigiodd y Cynghorydd E C George dderbyn argymhelliad 9(i) fel y'i manylwyd yn adroddiad y Trysorydd, ynghyd ag argymhelliad 9(iii) wedi ei newid i ddarllen: bod unrhyw danwariant yn 2004/05, oedd yn uwch na £595,000, yn cael ei ddefnyddio i sefydlu darpariaeth i ariannu mater a allai godi mewn perthynsas â'r rhaglen gyfalaf am 2005/06 ac i ariannu prosiectau oedd yn ganlyniad penderfyniadau ar y Cynllun Risg; a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Tân ym Mehefin 2005 ar sut y defnyddiwyd y tanwariant yn 2004/05 a glustnodwyd fel darpariaeth ar gyfer mater yn ymwneud â'r rhaglen gyfalaf ac ar gyfer ariannu penderfyniadau a gymerwyd ar y Cynllun Risg. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd E F Evans.

Cynigiodd y Cynghorydd W J Chorlton welliant, ac eiliwyd hwnnw gan y Cynghorydd J A Roberts, sef cymeradwyo argymhellion 9(i) a 9(ii) fel a fanylwyd yn adroddiad y Trysorydd. Rhoddwyd y gwelliant i'r bleidlais yn gyntaf, a phan bleidleisiwyd arno, o fwyafrif, fe'i collwyd. Yna, rhoddwyd yr argymhellion gwreiddiol i'r bleidlais, ac o fwyafrif:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***neilltuo £95,000 o'r tanwariant yn 2004/05 i greu Darpariaeth ar gyfer Gwisgoedd;***
ii. ***bod gweddill y tanwariant yn 2004/05, oedd yn uwch na £595,000 yn cael ei ddefnyddio i sefydlu darpariaeth i ariannu mater a allai godi mewn perthynas â'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2005/06 ac i ariannu prosiectau oedd yn deillio o'r penderfyniadau gymerwyd ar y Cynllun Risg; a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Mehefin 2005 ar y defnydd a wnaed o'r tanwariant o 2004/05 a glustnodwyd fel darpariaeth ar gyfer mater yn ymwneud â'r rhaglen gyfalaf ac ar gyfer ariannu penderfyniadau gymerwyd ar y Cynllun Risg***

Gofynnodd y Cynghorwyr W J Chorlton, J A Roberts a W T Roberts i'r ffaith iddynt bleidleisio yn erbyn y penderfyniad a gymeradwywyd gael ei gofnodi.

## 8) Cynllun Integredig Rheoli Risg – Cynllun Gweithredu'r Ail Flwyddyn

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am yr ymatebion a dderbyniwyd ar yr ymgynghoriad ar "Eich Gwasanaeth, Eich Diogelwch, Eich Llais", sef cynllun gweithredu 2il flwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif

Swyddog Tân nad oedd yr Awdurdod, yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM), wedi ail-ysgrifennu ei Gynllun Risg, ond yn hytrach wedi diweddaru ei gynllun gweithredu'r flwyddyn gyntaf. Tri ymateb ddaeth i law, sef dau gan gyrff cynrychioliadol ac un gael aelod o staff. Roedd tabl yn rhestru'r sylwadau a'r materion a godwyd gan y rhai a ymatebodd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad. Cafodd yr aelodau wybod y byddai'r Cynllun Gweithredu, unwaith y byddai wedi derbyn cymeradwyaeth yr Awdurdod, ynghyd â'r rhestr o ymatebion, yn cael ei gynnwys ar wefan yr Awdurdod er gwybodaeth i'r cyhoedd.

Tynnodd y Cynghorydd W J Chorlton sylw at y ffaith fod un o'r rhai a ymatebodd wedi codi'r mater nad oedd yr Awdurdod wedi gosod unrhyw amseroedd ymateb, ac roedd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi dweud yn ystod y ddadl yn y sesiwn lawn ar y Fframwaith Cenedlaethol yr wythnos flaenorol ei bod yn dal i edrych ar y mater. I ateb y pwynt hwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod, yn ystod proses y Cynllun Risg, wedi penderfynu yn erbyn gosod safonau amseroedd penodol. Roedd hyn yn ymddangos yn beth doeth gan fod Llywodraeth y Cynulliad, yn y Fframwaith Cenedlaethol, wedi cynnwys ei fwriad i gyhoeddi cyfarwyddyd, yn ystod 2005, ar Safonau Cyflwyno Gwasanaeth.

Cafodd yr aelodau wybod fod cyd-ymateb yn fater oedd yn cael ei drafod ar lefel Prydeining trwy'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol. Byddai rhagor o wybodaeth ar y mater hwn ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Holodd y Cynghorydd J Vaughan pam fod Undeb yr RFU yn dymuno gwybod am drafodaethau ynghylch Ystafell Reoli'r Gwasanaeth Tân pan nad oedd gan yr Undeb honno unrhyw aelodau'n gweithio yn yr Ystafell Reoli; dywedodd y Prif Swyddog Tân mai dim ond yr Undeb ei hun allai ateb hynny. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i.*** ***nodi cynnwys yr adroddiad a'r tabl oedd ynghlwm;***
- ***ii.*** ***cytuno ar yr ymatebion oedd ar y tabl ynghlwm; a***
- ***iii.*** ***mabwysiadu Cynllun Gweithredu'r 2il Flwyddyn***

**9) Y Cynllun Integredig Rheoli Risg**

Trwy gyfrwng cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Paul Claydon, cafodd yr aelodau adroddiad cynnydd ar gynllun gweithredu blwyddyn gyntaf Cynllun Risg yr Awdurdod Tân. Rhoddodd drosolwg cryno o amcanion proses y Cynllun Risg, yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gynllun gweithredu'r flwyddyn gyntaf, y camau arfaethedig ym mhob un o'r wyth o feysydd risg, cyn mynd yn ei flaen i roi gwybod i'r aelodau am y cynnydd a wnaed ym mhob un o'r meysydd hyn hyd yma. Ymysg y cyraeddiadau roedd:

Risg 1: Mae Pobl yn Dal i Farw Mewn Tanau – yn 2004, roedd yr Awdurdod wedi cofnodi ei nifer isaf o farwolaethau oherwydd tân ers ei ffurfio yn 1996. Roedd hefyd ar y targed i weld gostyngiad o 25% yn nifer y tanau. Roedd strwythur

reolaethol newydd wedi cael ei chyflwyno, roedd staff rhan amser yn gwneud gwaith diogelwch tân cymunedol ac roedd staff anweithredol hefyd yn cael ei cyflogi yn y maes yma.
Risg 2: "Pell o'r golwg, pell o'r meddwl" – roedd y Gwasanaeth bellach yn gweithredu cynlluniau partneriaeth mewn gorsafoedd tân gyda sefydliadau megis Cymorth ar Bopeth (*Citizens Advice Bureau*). Cafodd strwythur drefniadaethol newydd yn seiliedig ar ardaloedd yr awdurdodau unedol ei sefydlu, er mwyn hwyluso perthynas waith agosach rhwng y Gwasanaeth a phob awdurdod lleol, yn ogystal â sefydliadau gwirfoddol. Yn gymorth i'r strwythur drefniadaethol newydd, cafwyd adeiladau newydd i swyddfeydd mewn rhai ardaloedd, tra mewn ardaloedd eraill roedd yr adeiladau presennol wedi cael eu haddasu neu eu hadnewyddu i ateb y gofynion. Sefydlwyd canghennau newydd o'r YFA mewn nifer o ardaloedd ac roedd Atal Tân Cymru, a dderbyniai gefnogaeth ariannol gan yr Awdurdod, bellach yn cael effaith ledled Cymru.

Risg 3: Galwadau Diangen Parhaus – oherwydd gweithdrefnau newydd i ymdrin â galwadau diangen parhaus, roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i leihau symudiadau peiriannau o 440 oherwydd y mathau hyn o alwadau. Nid aethpwyd at 8.2% o'r galwadau a dderbyniwyd, ac aethpwyd â llai o adnoddau at 8.1% o'r galwadau a dderbyniwyd. Ar gyfartaledd, roedd y Gwasanaeth yn derbyn rhyw 247 o alwadau ffug bob mis. Er bod polisi cadarn yr Awdurdod yn y maes hwn yn talu ar ei ganfed, byddai'n rhaid ei ddiddymu i wneud lle i bolisi, a ddatblygwyd ac a fabwysiadwyd yn genedlaethol, gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA), gan fod y polisi hwn wedi derbyn cefnogaeth Cymdeithas yr Yswirwyr Prydeinig.

Risg 4: Safonau Gofal Tân – ers i'r safonau gofal tân gael eu diddymu ac i'r Awdurdod ymrwymo i "ymateb i dân a digwyddiadau brys eraill … trwy'r dull cyflymaf posib, gan ddefnyddio'r adnoddau mwyaf priodol …", ni fu unrhyw ostyngiad yn yr amseroedd ymateb. Roedd y ffordd roedd galwadau'n cael eu trin yn cael ei fonitro'n barhaus a phan oedd unrhyw anghysonderau'n codi, byddid yn ymchwilio iddynt rhag ofn bod unrhyw faterion lleol yn achosi oedi mewn ymateb.

Risg 5: Diwrnodiau Gwaith ac Amseroedd Prysur – roedd amseroedd cychwyn a gorffen shifftiau ar orsafoedd criw-dydd wedi cael eu newid, gan ddod i rym ar 6ed Ionawr 2005, er mwyn iddynt gyd-fynd â'r adegau mwyaf prysur. Roedd y newid hwn yn cael ei fonitro'n barhaus am effeithiolrwydd, ac roedd i'w weld yn gweithio'n dda ar hyn o bryd.

Risg 6: "Ydy'r cydbwysedd yn iawn?" – hyd yn hyn, gwnaed adolygiadau ar bresenoldeb rhagnodedig (*pre-determined attendance*), peiriannau arbennig – dylai'r canlyniadau fod ar gael yn y dyfodol agos, anfon allan ar sail strydoedd yn hytrach na'r system o anfon allan ar sail plwyfi, lleoliadau offer a'r Dimensiynau Newydd. O ganlyniad, roedd systemau newydd o reoli galwadau wedi cael ei gyflwyno gyda'r bwriad o fynd i'r afael a nifer y galwadau ffug ac amheus. Hefyd, roedd monitro perfformiad yn cymeryd lle ar bob lefel.

Risg 7: Tanau Bwriadol yn Fygythiad Cynyddol – yn ddiweddar, sefydlwyd Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yng Ngogledd Cymru. Menter ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu oedd y Tîm, gyda'r bwriad o ostwng nifer y tanau bwriadol a throseddau'n gysylltiedig â thanau bwriadol yn yr ardal. Roedd yr Awdurdod hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau ac awdurdodau eraill yn yr ardal gyda'r bwriad o ostwng nifer y tanau bwriadol. O ganlyniad, roedd yr Awdurdod wedi gweld nifer y prif danau bwriadol yn gostwng oddeutu 20 y mis, a thanau eilaidd yn dangos gostyngiad o 33% o'i gymharu â ffigwr y flwyddyn flaenorol.

Risg 8: Y Strwythur Drefniadaethol – cyflwynwyd strwythur drefniadaethol newydd oedd yn canolbwyntio ar anghenion lleol. Datgymalwyd yr hen ardaloedd rhanbarthol ac yn eu lle, ffurfiwyd ardaloedd sirol yn seiliedig ar ffiniau'r awdurdodau lleol, ac eithrio Gwynedd a rannwyd yn ddwy ardal; roedd gan bob un o'r ardaloedd hyn reolwr diogelwch penodedig. Roedd y gorsafoedd tân hefyd yn ymwneud â threialu'r system IPDS.

Roedd gwaith ymchwil yn parhau ar y "Meysydd ar gyfer Ymchwilio Ymhellach" ond dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod mater yr Ystafell Reoli wedi symud yn ei flaen a bod yr Awdurdod yn edrych tuag at symud i gyfleuster ystafell reoli cyd-leoledig ar gyfer y gwasanaethau brys o fewn y deuddeng mis nesaf.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd W J Chorlton ynghylch a ddaeth unrhyw broblemau i'r amlwg yn dilyn cyflwyno'r amseroedd shifftiau newydd ar orsafoedd criw-dydd, dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod nifer o unigolion oedd, yn wreiddiol wedi cyflwyno cais am adleoliad, bellach, yn dilyn cyflwyno'r system newydd, wedi tynnu eu cais yn ôl. Dywedodd y Cynghorydd Chorlton ei fod ef yn clywed stori wahanol a gofynnodd for arolwg yn cael ei wneud. Dywedodd y Prif Swyddog Tân ei fod eisoes wedi addo adolygu'r sefyllfa ar ôl chwe mis; byddai pawb dan sylw yn cael cyfle i ymateb i'r adolygiad. Cadarnhaodd fod yr wybodaeth a gafwyd hyd yn hyn yn dangos fod y system shifftiau newydd, a dderbyniodd gefnogaeth yr Awdurdod, i'w gweld yn gweithio'n dda. Gofynnodd y Cynghorydd E C George i ganlyniad yr adolygiad gael ei adrodd i'r Awdurdod. Cytunodd y Prif Swyddog Tân i'r cais hwn ac felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar gynllun gweithredu blwyddyn gyntaf Cynllun Risg yr Awdurdod a fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi 2005 ar ganlyniad yr adolygiad a wnaed ar weithrediad yr amseroedd shifftiau newydd ar orsafoedd criw dydd***

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon am ei gyflwyniad.

## 10) Diffodd tanau ar y môr neu o dan y môr

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am y sefyllfa bresennol ac arfaethedig o ran ymrwymiad y Gwasanaeth i ymateb i ddigwyddiadau ar y môr. Esboniodd fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno er gwybodaeth yn bennaf, gan ei fod yn tynnu sylw at faes o waith yr Awdurdod nad oedd yn derbyn llawer o gyhoeddusrwydd. Dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 roedd ymateb i ddigwyddiadau ar y môr neu o dan y môr wedi dod yn ddyletswydd statudol, felly roedd gofyn i'r Awdurdod ddarparu'r gwasanaeth hwn neu, fel arall lunio cynllun atgyfnerthu gydag awdurdod tân ac achub arall er mwyn iddynt ddarparu'r gwasanaeth ar ei ran. Bodolaeth porthladd Caergybi oedd un o'r prif resymau pam fod Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn un o nifer o awdurdodau oedd yn darparu'r gwasanaeth yma eisoes. Gan fod Awdurdod Tân Gogledd Cymru, ers tro byd, wedi datgan ei hun yn ased i'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau er mwyn darparu'r gwasanaeth yma, fe ellid galw arno i ymateb i ddigwyddiadau ar y môr neu o dan y môr ar hyd rhan helaeth o arfordir gorllewin Prydain, o Ganolbarth a Gorllewin Cymru i Ystrad Clud. Roedd y ddau awdurdod yma, ynghyd ag Awdurdod Tân Gogledd Cymru hefyd yn aelodau o'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol (MIRG), sef grŵp o bymtheg o awdurdodau tân ac achub mewn lleoliadau strategol o amgylch arfordir Prydain y gellid galw arnynt i ymateb i ddigwyddiadau morwrol.

Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton ei fod yn llwyr gefnogi rhan yr Awdurdod mewn diffodd tanau ar y môr ond mynegodd ei bryder am faint cwmpas yr yswiriant ar gyfer y personél oedd yn ymgymryd â'r dyletswyddau eithriadol beryglus yma. Dywedodd y Prif Swyddog Tân y byddai'r holl faterion yma yn dod dan Gytundeb Telerau ac Amodau'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol pan y llunnid ef yn derfynol.

Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau nad oedd y Cynulliad wedi ymgynghori eto ar orchymyn i godi tâl am ddarparu gwasanaethau penodol dan Adran 19 o Ddeddf 2004, er bod gofyn i'r awdurdod ddarparu'r gwasanaeth; gallai hyn fod yn rhwystr yn y broses o adfer costau oddi wrth yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau petai'r Gwasanaeth yn cael ei alw at ddigwyddiad ar y môr neu o dan y môr. Felly, roedd yn hanfodol fod yr Awdurdod yn dwyn pwysau ar y Cynulliad i brysuro i ddod â gorchymyn dan Adran 19 ymlaen. Roedd y Cynghorydd D Clayton yn cytuno â safbwynt y Clerc ar bwysigrwydd cyflwyno sylwadau cadarn i'r Cynulliad ar yr angen i ddwyn ymlaen orchymyn dan Adran 19. Holodd hefyd pwy oedd yn gyfrifol am bennu pa awdurdodau, dan Adran 20 o Ddeddf 2004, oedd i ddarparu'r Gwasanaeth a pham nad oedd yr holl awdurdodau yn darparu'r gwasanaeth hwn. I ateb cwestiynau'r Cynghorydd Clayton dywedodd y Prif Swyddog Tân nad oedd pob awdurdod tân arfordirol yn cymryd cyfrifoldeb am ymladd tanau ar y môr cyn dyfodiad Ddeddf 2004. Ni fuasai chwaith yn ymarferol i bob awdurdod tân ac achub nawr ddarparu'r gwasanaeth gan y byddai hynny'n arwain at or-ddarparu ac yn wastraff ar adnoddau. Byddai yn fwy effeithlon o lawer i'r awdurdodau nad oedd yr adnoddau hyn ganddynt i lunio cynlluniau atgyfnerthu gydag aelodau'r Grŵp Ymateb. Dywedodd Mr W A Murphy, Uwch Reolwr Gweithrediadau'r

Gwasanaeth, wrth yr aelodau fod awdurdodau Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn a Glannau Merswy wedi cysylltu â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda golwg i lunio cynlluniau atgyfnerthu ar gyfer darparu'r gwasanaeth i'r awdurdodau hynny; nid oedd unrhyw gytundebau wedi cael eu llofnodi eto. Ar y pwynt yma, ac ynghylch llunio cynlluniau atgyfnerthu cydfuddiannol gydag awdurdodau y tu allan i'w ardal ei hun, dywedodd y Clerc fod Adran 9 o Ddeddf 2004 yn bendant iawn ynghylch pŵer y Cynulliad i awdurdodi trwy orchymyn awdurdod i gyflawni ei swyddogaeth y tu allan i'w ardal ddaearyddol ei hun. Felly, roedd o'r farn mai doeth o beth fyddai i'r Awdurdod gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Cynulliad i ddwyn ymlaen hefyd orchymyn dan Adran 9 o'r Ddeddf. Roedd yr aelodau'n cytuno â'r farn hon a:

***Penderfynwyd:***

- ***i. nodi cynnwys yr adroddiad;***
- ***ii. cefnogi, mewn egwyddor, aelodaeth arfaethedig y Gwasanaeth o'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol, yn amodol ar dderbyn ac ystyried Cytundeb Amodau a Thelerau'r Grŵp wedi iddo gael ei lunio yn derfynol; a***
- ***iii. bod sylwadau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad i brysuro cyhoeddi gorchmynion dan Adrannau 9 a 19 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004***

**11) Cylch Gwaith Diwygiedig ar gyfer Panel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda'r bwriad o gael yr Awdurdod i gytuno i newidiadau i gylch gwaith y Panel Gweithredol yng ngoleuni'r newidiadau deddfwriaethol a'r gweithdrefnau disgyblu, galluogrwydd a chwyn a ddaeth i rym ar 1af Chwefror 2005.

***Penderfynwyd: - newid cylch gwaith Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad***

**12) Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod ystyried adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, roedd copi ohono yn atodiad i'r adroddiad. Esboniodd mai er gwybodaeth yn bennaf y cyflwynwyd yr adroddiad, a bod y Pwyllgor Safonau o'r farn fod cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod yn unol â llywodraethu corfforaethol da ar ran y Pwyllgor. Felly:

***Penderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad***

## 13) Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am hynt sefydlu Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc yng Ngogledd Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth gefndirol, manylion y sefyllfa bresennol, a'r ystyriaethau ar gyfer y dyfodol i'r YFA yng Ngogledd Cymru.

I ateb cwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân nad oedd y gangen o'r YFA yn y Rhyl yn weithredol ar hyn o bryd, er mai dyma'r gangen gyntaf i'w sefydlu yng Ngogledd Cymru. Dibynnai'r mudiad ar staff y Gwasanaeth yn rhoi o'u hamser i sefydlu a rhedeg canghennau, felly pe byddai'r sawl oedd yn gyfrifol yn cael dyrchafiad ac yn symud i rywle arall, fel y digwyddodd yn achos cangen y Rhyl, roedd perygl y gallai'r gangen gau os na fyddai unrhyw un arall yn fodlon cymryd y cyfrifoldeb amdani. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân, er fod y gwaith gyda'r YFA yn waith gwirfoddol, fod unrhyw gostau a delir gan yr unigolion dan sylw yn cael eu had-dalu. Roedd y Cynghorydd E C George yn meddwl tybed a allai adrannau gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol gynorthwyo yr Awdurdod Tân, mewn unrhyw fodd, gyda mudiad y YFA. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd S Frobisher ynghylch a oedd y ffaith fod unigolyn wedi bod yn aelod o'r mudiad yn gymorth iddynt ymuno â'r Gwasanaeth yn ddiweddarach, dywedodd y Prif Swyddog Tân nad bwriad y mudiad oedd i fod, mewn unrhyw fodd, yn system llwybr carlam ar gyfer gyrfa yn y Gwasanaeth; roedd yr aelodau'n gadael yn 16 oed a'r oedran isaf ar gyfer ymuno â'r Gwasanaeth oedd 18. Diben y mudiad oedd ennyn diddordeb pobl ifanc gyda'r bwriad o'u datblygu a'u gwneud yn ddinasyddion cyfrifol yn eu cymunedau eu hunain. Yn ystod seremoni cwblhau hyfforddiant yng Nghaergybi, roedd athro lleol wedi dweud wrth y Cadeirydd fod newid cadarnhaol wedi bod yn agweddau'r bobl ifanc oedd yn ymwneud â'r gangen honno. Cafodd yr aelodau wybod fod canghennau'r YFA yn gweithredu dan ambarél Cymdeithas Hyfforddiant Ieuenctid y Gwasanaethau Tân (FSYTA). Nid oedd dull gosodedig ar gyfer ariannu, roedd pob cangen yn gyfrifol am sicrhau ei arian nawdd ei hun, a deuai hwnnw yn bennaf oddi wrth gwmnïau ac unigolion lleol. Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd ei fod yn bwriadu trefnu cyfarfod gyda Chydlynwyr y YFA yng Ngogledd Cymru er mwyn cael "sesiwn taflu syniadau" gyda'r bwriad o drefnu "Cystadleuaeth y Cadeirydd" fyddai'n hwyluso cystadlaethau rhwng y canghennau. Addawodd adrodd ynghylch canlyniad y cyfarfod gyda'r cydlynwyr i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad a bod y Cadeirydd yn adrodd ynghylch canlyniad ei gyfarfod gyda Chydlynwyr y YFA ar ei gynnig i drefnu "Cystadleuaeth y Cadeirydd" ar gyfer canghennau'r YFA yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Mehefin***

**14) "Er Gwybodaeth"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn 'Er Gwybodaeth' i'r aelodau. Llongyfarchodd y Cadeirydd, Bethan Davies, Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus y Gwasanaeth, am y cylchgrawn.

***Penderfynwyd: - derbyn y cylchgrawn***

**15) Materion Brys**

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau i'w hystyried.

**RHAN II**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod busnes ffurfiol i ben am 12.10 o'r gloch.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 20 Mehefin, 2005

**Nodyn:**

Ar ôl cinio, aeth yr aelodau i Orsaf Dân yr Wyddgrug i weld un o Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau (IRU) yr Awdurdod.

### 16) Gweld yr Uned Ymateb i Ddigwyddiadau yng Ngorsaf Dân yr Wyddgrug

Ar ôl cyrraedd Gorsaf Dân yr Wyddgrug, cafodd yr aelodau eu briffio ar yr Uned Ymateb i Ddigwyddiadau gan y Rheolwr Grŵp Dimensiynau Newydd, Russell Vaughan. Esboniodd fod yr unedau, ac roedd dwy ohonynt yng Ngogledd Cymru, wedi eu darparu a'u hariannu gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) yn dilyn yr ymosodiad terfysgol yn Efrog Newydd ar Fedi 11eg 2001. Eu diben pennaf fyddai ymdrin ag unrhyw waith diheintio fyddai ei angen yn dilyn ymosodiad terfysgol, ond fe ellid eu defnyddio hefyd ar gyfer gwaith diheintio petai yna ddamwain Gemegol, Fiolegol, Radiolegol neu Niwclear yn digwydd. Cafodd yr aelodau weld y cyfarpar a ddarparwyd ar bob uned, cyn cael y cyfle i weld a cherdded trwy'r pebyll diheintio a godwyd ar fuarth yr orsaf. Rhoddodd Russell Vaughan a Kevin Brain, Hyfforddwr Grŵp Dimensiynau Newydd, drosolwg cynhwysfawr o'r weithdrefn fyddai'n cael ei dilyn, ar y cyd â'r gwasanaethau brys eraill, petai yna ddigwyddiad diheintio. Hefyd, cafodd yr aelodau wybodaeth am y defnydd a wneid o'r gwahanol offer oedd yn cael eu harddangos ac atebwyd cwestiynau'r aelodau ganddynt hwy ag aelodau eraill o staff y Gwasanaeth oedd yn bresennol.